| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **30 GORFFENNAF 2020** |
| TEITL | **CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2020/21** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DIWYGIEDIG AR GYFER Y FLWYDDYN 1 EBRILL 2020 – 31 MAWRTH 2021** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **CYMERADWYO'R CYNLLUN YN YR ATODIAD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynir cynllun drafft diwygiedig o waith Archwilio Mewnol am y flwyddyn ariannol 2020/21 er sylwadaeth a chymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.

1.2 Yn unol ag arfer gorau a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, mae'r cynllun Archwilio Mewnol yn destun adolygiad parhaus i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol ac yn adlewyrchu newidiadau yn y busnes. Mae hyn hyd yn oed yn bwysicach fyth o ystyried effaith sylweddol a chyflym pandemig COVID-19 ar y Cyngor

1.3 Mae'r cynllun wedi ei ddiweddaru yn sgîl pandemig Covid-19 a'r ffaith nad oedd modd i Archwilio Mewnol gynnal ei waith yn chwarter cyntaf y flwyddyn. Cafodd swyddogion Archwilio Mewnol eu hadleoli i gynorthwyo a chefnogi'r Cyngor drwy wirio a phroses Grantiau Llywodraeth Cymru i Fusnesau a weinyddir gan y Gwasanaeth Refeniw. Mae gwariant rhagamcanol y Grantiau hyn yn £63M, yr ail gyngor uchaf yng Nghymru o ran gwariant a thrafodion. Mae'r gwaith hyn wedi ei adlewyrchu yn y cynllun diwygiedig.

## 2. BWRIAD ARCHWILIO MEWNOL

2.1 Pwrpas y gwasanaeth Archwilio Mewnol ydi:

***Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu***

2.2 Wrth baratoi'r cynllun gwaith diwygiedig yma, rhoddwyd ystyriaeth i'r hyn sydd angen i'r gwasanaeth ei wneud er mwyn cyflawni'r pwrpas yma.

2.3 Adnoddau cyfyngedig sydd gan yr uned; adnodd staffio'r Uned yw 7 swydd amser ac un archwiliwr dros dro.

2.4 Felly, er mwyn sicrhau ein bod yn adolygu'r pethau cywir, rhoddwyd ystyriaeth i'r Gofrestr Risg Corfforaethol, Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd ynghyd ag unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol sydd ar waith. Mae hyn er mwyn sicrhau fod rheolaethau allweddol y Cyngor er mwyn ymdrin â'i brif risgiau yn derbyn sylw.

2.5 Canlyniad hyn oedd paratoi cynllun drafft cychwynnol, a drafodwyd gyda pob Pennaeth adran (neu dîm rheoli adrannol mewn rhai achosion) cyn ei gyflwyno a derbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor hwn ar 13 Chwefror 2020.

2.6 Mae'r cynllun archwilio diwygiedig hwn yn gynllun gydag hyblygrwydd i sicrhau y rhydd sylw i unrhyw faterion a ddaw i'r amlwg a newidiadau i risgiau a blaenoriaethau'r Cyngor a hefyd sicrhau iechyd a diogelwch swyddogion Archwilio Mewnol a chleientiau.

**3. Y FFORDD YMLAEN**

3.1 Fel y mwyafrif o wasanaethau'r Cyngor, mae swyddogion Archwilio Mewnol bellach yn gweithio o gartref hyd y gellir rhagweld, ac felly bydd cynnal archwiliadau lle mae angen ymweliad â'r sefydliad yn gyfyngedig. Bydd Archwilio Mewnol yn parhau gyda cyflawni ei ddyletswyddau tra'n parchu unrhyw gyfarwyddyd a gaiff ei roi mewn lle gan Lywodraeth Cymru ac yn cynnal ei weithgareddau o fewn unrhyw gyfyngiadau a osodir.

3.3 Un o prif flaenoriaethau chwarter 1, fel yn y ddwy flynedd ariannol flaenorol, yw darparu gwasanaeth Archwilio Mewnol i oddeutu 70 o gynghorau cymuned, tref a dinas. Ar gyfer cyflawni hyn ac i gynorthwyo'r cynghorau i gwrdd â'u amserlen statudol o ran cyflwyno eu cyfrifon erbyn 30 Mehefin 2020, derbyniwyd dogfennaeth drwy e-bost ble'n bosibl, a chynhaliwyd cyfarfodydd drwy ddefnyddio Zoom neu Microsoft Teams, yn ogystal â sgyrsiau dros y ffôn. Bu i'r Gwasanaeth dderbyn adborth positif gan y Clercod/Swyddogion Ariannol Cyfrifol ar y trawsffurfiad esmwyth o gynnal yr archwiliadau hyn.

3.3 Bydd cynllun diwygiedig 2020/2021 Archwilio Mewnol yn rhoi ystyriaeth briodol i'r canlynol:

- Yn ymwybodol ar bob amser o'r posibilrwydd y gall twyll neu lygredigaeth ddigwydd. Byddwn felly yn manteisio ar y Fenter Twyll Cenedlaethol ac yn cynnal gwaith Atal Twyll Rhagweithiol. Mae Archwilio Cymru wedi penderfynu ymestyn y Fenter i dargedu'r risgiau twyll sy'n gysylltiedig â grantiau neu daliadau Covid-19 a wneir gan awdurdodau lleol. Ni fydd swyddogion Archwilio sydd wedi bod ynghlwm â'r gwaith o brosesu taliadau grant yn cynnal y gwaith hyn i sicrhau annibyniaeth a gwahaniad dyletswyddau priodol.
- Yn parhau i roi sylw i grantiau penodol, yn enwedig lle mae amodau'r grant yn disgwyl adolygiad gan Archwilio Mewnol.

3.4 Mae'r cynllun diwygiedig yn adlewyrchu:

- Amser adleoli staff Archwilio Mewnol ar gyfer cynorthwyo gyda grantiau Llywodraeth Cymru (120 diwrnod)
- Darpariaeth ar gyfer cefnogi Adrannau/Gwasanaethau gyda'u trefniadau busnes diwygiedig yn sgil pandemig Covid-19 (30 diwrnod)
- Darpariaeth i alluogi Archwilio Mewnol ymateb i faterion allweddol sy'n effeithio ar yr amgylchedd reolaeth fewnol a all fod wedi codi oherwydd newidiadau i brosesau yng ngoleuni gofynion brys (30 diwrnod)
- Adolygiad o drefniadau ymateb Cyngor Gwynedd i'r pandemig ac unrhyw wersi a ddysgwyd (50 diwrnod)
- Cynnal adolygiadau lefel uchel ble nad yw'n ymarferol ymweld â sefydliadau/gwasanaethau

## 4. ADNODDAU SYDD AR GAEL

4.1 Rhagwelir y bydd oddeutu 711 diwrnod o adnoddau archwilio ar gael i gwblhau cynllun archwilio 2020/21. Mae hyn ar sail dadansoddi'r adnoddau staffio sydd ar gael, gan gynnwys cyllidebau rhesymol ar gyfer gweithgareddau "di-gynnyrch" megis gwyliau, salwch, hyfforddiant, rheolaeth a chyfarfodydd.

4.2 Bydd yn Cynllun Archwilio 2020/2021 yn gynllun gyda hyblygrwydd er mwyn galluogi'r Gwasanaeth i gefnogi'r Cyngor gydag unrhyw faterion a ddaw i'r amlwg ac i weithredu'n brydlon i unrhyw risgiau a ddeillir yn sgil y materion hynny.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Cynllun Archwilio Diwygiedig ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021.

**Atodiad 1**

## CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL DRAFFT 2020/2021

| Archwiliad | Dyddiau | Rheswm |
|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | |
| Ail Leoli Swyddogion Archwilio i Wasanaethau Blaenoriaeth 1 | 120 | Cefnogi gyda phrosesu Grantiau Llywodraeth Cymru. |
| Cynlluniau Parhad Busnes (ar draws y Cyngor) a Gwersi a Ddysgwyd | 40 | Gwirio addasrwydd cynlluniau parhad gwasnaeth a gwirio bod adroddiadau gwersi a ddysgwyd wedi eu cyflwyno a bod log risgaiu yn cael eu cynnal a'u cadw'n gyfredol. |
| Cefnogi Adrannau/Gwasanaethau gyda trefniadau busnes yn dlyn pandemig Covid-19 | 30 | Adolygu trefniadau busnes a fabwysiadwyd yn sgil y pandemig Covid-19. |
| Ymateb i faterion allweddol sy'n effeithio ar yr amgylchedd reolaeth fewnol a all fod wedi codi oherwydd newidiadau i brosesau yng ngoleuni gofynion brys | 30 | Bydd hyn yn ddibynnol ar ddatblygiadau yn sgil y pandemig Covid-19. |
| Trefniadau Gweithio o Gartref | 20 | Adolygu digonolrwydd y gefnogaeth sydd wedi ei roi i staff yn ystod cyfnod y pandemig, e.e.polisiau, rheoli, cyfarwyddyd GDPR ayb. |
| Trefniadau Diogelu | 10 | Llawer iawn o staff dros dro/gwirfoddolwyr wedi eu recriwtio yn sgil Covid-19 ac efallai nad oedd amser wedi caniatau i gynnal gwiriadau priodol DBS - mae hwn yn faes o risg uchel. |
| Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genedlaethol | 50 | Gwaith i'w gynnal er mwyn sicrhau fod trefniadau cadarn yn eu lle i ymdrin â'r risgiau o dwyll a llygredigaeth a'r Fenter Twyll Genedlaethol a gaiff ei rhedeg gan Archwilio Cymru. Gall yr ymchwiliadau hyn gynnwys unrhyw elfen o dwyll a gyflawnwyd drwy fanteisio ar bandemig Covid-19. |
| Credydwyr - Risgiau gyda'r gadwyn gyflenwi | 20 | Bydd risg sy'n gysylltiedig â chontractau a chymalau "force majeure" yn parhau i esblygu. |
| Newid Hinsawdd | 20 | Bydd yr archwiliad yn canolbwyntio ar y trefniadau sydd y eu lle gan yr awdurdod i gwrdd â newid hinsawdd. |

| Archwiliad | Dyddiau | Rheswm |
| --- | --- | --- |
| **ADDYSG** | | |
| ***Adnoddau*** | | |
| Grant Datblygu Disgyblion | 10 | Nid yw’r GDD wedi ei ymgorffori yn y Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion, felly mae’n ofynnol i gynnal archwiliad ar wahân. |
| Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion | 15 | Mae’r grant yn gyfuniad o sawl grant blaenorol oedd yn cael eu talu gan Lywodraeth Cymru. |
| Grant Addysg Ôl-16 | 3 | Disgwyliad yn yr amodau ariannol. |
| ***Ysgolion*** | | |
| Cronfeydd Ysgol | 30 | Adolygiad o gronfeydd ysgolion Gwynedd. |
| Ysgolion Cyffredinol | 5 | Darpariaeth blynyddol ar gyfer rhoi cyngor ac ymgynghori. |
| **AMGYLCHEDD** | | |
| ***Gwarchod y Cyhoedd*** | | |
| Gorfodaeth Ffyrdd a Parcio | 12 | Trefniadau gorfodaeth yn sgil ymwelwyr i'r ardal. |
| **TAI AC EIDDO** | | |
| ***Tai a Llesiant*** | | |
| Costau Gwely a Brecwast | 30 | Mae'r archwiliad wedi ei gynnwys ar gais y Pennaeth yn sgil y cynnydd mewn costau fel yr amlygwyd mewn adroddiad archwilio a gyhoeddwyd yn 2019-20. |
| Grant Cefnogi Pobl | 12 | Disgwyliad yn ampdau’r grant. |
| **CEFNOGAETH GORFFORAETHOL** | | |
| ***Uned Cefnogol Ganolog*** | | |
| Datganiadau Cyflogaeth | 8 | Mae bellach yn ofynnol bod datganiadau cyflogaeth yn cynnwys cymal mewn perthynas ag ymgymryd â hyfforddiant statudol, e.e. diogelu. |

| Archwiliad | Dyddiau | Rheswm |
|---|---|---|
| **CYLLID** | | |
| ***Ar draws yr adran/corfforaethol*** | | |
| Diogelwch a Systemau TG | 30 | Bwriedir cynnal archwiliadau ar feysydd penodol yn y maes Technoleg Gwybodaeth gyda ffocws ar weithio o gartref ynghyd â pholisiau "gweithio o bell", diogelwch seibr ayb. |
| ***Cyflogau*** | | |
| Taliadau i Weithwyr Gofal | 15 | Gwirio bod trefniadau priodol mewn lle ar gyfer gweinyddu'r taliad ychwanegol i weithwyr yn y maes gofal. |
| ***Cyfrifeg*** | | |
| Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2019-20 | 4 | Mae hwn yn ofyniad statudol. |
| Datganiad Cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 2019-20 | 4 | Mae hwn yn ofyniad statudol. |
| Datganiad Cyfrifyddu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2019-20 | 10 | Mae hwn yn ofyniad statudol. |
| ***Pensiynau*** | | |
| Taleion Newydd | 12 | Adolygiad o'r trefniadau dros sefydlu taleion newydd. |
| ***Refeniw*** | | |
| Gostyngiad Treth Cyngor | 10 | Gwirio sampl o geisiadau newydd a gyflwynwyd yn ystod y pandemig. |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | |
| ***Adfywio Cymunedol*** | | |
| Cronfa'r Degwm | 3 | Bydd angen gwiriad annibynnol os yw incwm y gronfa dros £25,000. |
| ***Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau*** | | |
| Amgueddfa Lloyd George | 6 | Mae gan Cyngor swyddogaeth benodol fel ymddiriedolwr. Mae angen gwirio fod y dyletswyddau hyn yn cael eu cyflawni. |
| Storiel | 5 | Mae Storiel wedi derbyn sgôr risg o 20 ar y Gofrestr Risg Corfforaethol. |
| ***Morwrol a Pharciau Gwledig*** | | |
| Cynllun Rheoli Traethau | 8 | Mae hwn yn faes o risg uchel. (sgôr risg 20) |

| Archwiliad | Dyddiau | Rheswm |
|---|---|---|
| ***Prosiectau Sylweddol*** | | |
| Cynllun STEM Gogledd | 8 | Adolygiad o gynlluniau penodol. |
| ***Strategaeth a Datblygu*** | | |
| Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | 15 | Trefniadau llywodraethu y Bwrdd - sef cydbwyllgor o blith awdurdodau lleol gyda chynrychiolwyr o bartneriaid allweddol megis Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, Prifysgolion a Cholegau Addysg Bellach. |
| Unedau Busnes | 12 | Gwirio bod yr Unedau wedi derbyn "gwyliau rhent" gan y Cyngor a bod y broses wedi ail-gychwyn. |
| **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | |
| ***Preswyl a Dydd*** | | |
| Ffioedd Cartrefi Preifat | 30 | Adolygiad o'r taliadau a wneir i gartrefi preifat gyda phwyslais ar yr elfen o daliadau ychwanegol. |
| **PLANT A CEFNOGI TEULUOEDD** | | |
| ***Plant a Theuluoedd*** | | |
| Trefniadau Asesu Risg a Rhaglen Hyfforddiant | 12 | Mae'r maes hwn wedi ei adnabod ar y Gofrestr Risg Corfforaethol oherwydd trais yn y gwaith, gweithio'n unig a natur a nifer llwythi achos. |
| Asesiadau Statudol (AMHP) | 20 | Mae hwn yn ofynnol yn unol â Mesur Iechyd Meddwl Cymru. |
| Trefniadau "Cinio am Ddim" | 12 | Gwirio bod trefniadau priodol wedi eu sefydlu i sicrhau bod plant bregus yn derbyn cinio am ddim yn ystod y pandemig. |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | |
| ***Ar draws yr adran*** | | |
| Asesiadau Risg | 20 | Gwirio cynnwys a phriodoldeb asesiadau risg. |

| Archwiliad | Dyddiau | Rheswm |
|---|---|---|
| **YMGYNGHORIAETH GWYNEDD** | | |
| ***Ar draws yr adran*** | | |
| Cyllidebu a Gwariant | 10 | Adolygiad wedi ei gynnwys ar gais Tîm Rheoli YGC. |
| **Cyfanswm Dyddiau** | **711** | |